Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gyfun Emlyn

Castellnewydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9LN

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Emlyn

Enw'r darparwr	Ysgol Gyfun Emlyn
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Saesneg
Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	502
Disgyblion o oed ysgol statudol	418
Nifer yn y chweched dosbarth	84
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%)	18.0%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 9.0%)	6.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	11.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy
Dyddiad penodi'r pennaeth	

Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	03/12/2018
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/11/2025

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Emlyn yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth, ac mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r ysgol yn teilwra'i gofal, ei chymorth a'i harweiniad yn effeithiol ac yn darparu ystod o gyrsiau a llwybrau sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er bod yr ysgol yn gweithio ar wella presenoldeb, mae'r cyfraddau'n parhau i fod yn is na'r disgwyl.

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion, ac mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent oherwydd diffygion mewn addysgu. Nid yw athrawon yn y gwersi hyn bob amser yn cynllunio gwersi sy'n herio ac yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion yn gyson. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn oddefgar ac nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn yn y dysgu.

Ceir ymagwedd gydlynus at wella medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm a ffocws cryf ar ddatblygu diwylliant darllen cadarnhaol. Er mai megis dechrau datblygu y mae medrau rhifedd, digidol a medrau Cymraeg disgyblion, mae cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu'r rhain. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd iddynt ymgymryd â rolau arwain a chyfrifoldebau ysgol gyfan yn gyfyngedig.

Caiff cyfrifoldebau arwain eu rhannu'n rhesymol ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cwblhau ystod o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig agweddau yn gysylltiedig ag addysgu. Mae'r cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11 yn briodol o eang a chytbwys, er nad yw cost y cynnig cwricwlaidd yn y chweched dosbarth yn cael ei gwerthuso'n ddigon manwl. Mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddileu'r diffyg yn y gyllideb

A2 Miniogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio'n fanwl ar yr elfennau addysgu sydd angen eu gwella fwyaf

A3 Sicrhau bod yr addysgu'n herio disgyblion yn gyson i wneud cynnydd cryf

A4 Gwella presenoldeb

A5 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain a chyfrifoldebau ysgol gyfan

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn Ysgol Gyfun Emlyn yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â'u disgyblion ac yn eu hadnabod yn dda. Ceir amgylchedd dysgu parchus a chefnogol. Mae gan yr athrawon hyn wybodaeth bynciol gadarn.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio dilyniannau o weithgareddau sy'n meithrin gwybodaeth a medrau disgyblion yn dda. Maent yn rhoi esboniadau ac enghreifftiau clir, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau eu hathrawon yn brydlon ac yn ymddwyn yn dda. Mae llawer o athrawon yn holi'n briodol i wirio bod disgyblion yn gallu galw i gof ac yn cynnig arweiniad unigol gwerthfawr yn rheolaidd wrth iddynt symud o gwmpas y dosbarth.

Mewn ychydig iawn o wersi, pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym a chryf. Yn y gwersi hyn, mae brwdfrydedd athrawon am eu pwnc yn heintus ac mae hyn yn cymell disgyblion yn dda. Mae eu cynllunio gofalus yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau angenrheidiol i ymateb i'r lefelau uchel o her a gynigir iddynt.

Mewn lleiafrif o wersi, mae gwendidau mewn addysgu sy'n golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn:

- nid yw athrawon yn cynllunio gwersi sy'n herio disgyblion yn ddigon da, yn enwedig y disgyblion mwy abl
- mae athrawon yn rhoi esboniadau rhy hir sy'n cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth
- nid yw athrawon yn defnyddio holi'n ddigon da i brocio dealltwriaeth disgyblion ac ymestyn eu hymatebion

O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn oddefgar ac nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn yn y gwersi. Nid yw ychydig o athrawon yn uchafu'r defnydd o amser gwersi yn ddigon da, sy'n golygu bod gwersi naill ai'n dechrau'n araf, yn gorffen yn gynnar, neu nid oes strwythur clir iddynt. Nid oes gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae effaith adborth ysgrifenedig yn amrywiol. Ym mwyafrif yr achosion, mae disgyblion yn defnyddio cyngor eu hathrawon i wella'u gwaith yn dda. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r adborth yn ddigon buddiol i alluogi disgyblion i wneud gwelliannau pwrpasol i'w gwaith.

Llythrennedd

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn raddol ei chydlynu'n effeithiol. Mae gan lawer o ddisgyblion eirfa dda ac maent yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn addas. Yn gyffredinol, pan fydd cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau athrawon. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hynod effeithiol a rhugl. Maent yn rhoi atebion estynedig, gan esbonio'u rhesymau'n dda. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i ymhelaethu ar eu hatebion ac nid oes ganddynt eirfa gyffredinol dda na geirfa dda sy'n benodol i bwnc.

Mae arweinwyr wedi cryfhau diwylliant darllen yr ysgol, ac mae hyn wedi cynnwys adnewyddu'r llyfrgell ac amserlennu gwersi darllen. Mae gan yr ysgol system cyfeillion darllen dra strwythuredig ac mae nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gwirfoddoli i ddarllen gyda disgyblion iau. Mae 'her ddarllen Emlyn' yn argymell llyfrau i ddisgyblion eu darllen bob mis, a phrofir eu dealltwriaeth yn ystod cwis ar ddiwedd blwyddyn. Mae strategaethau synhwyrol ar waith i alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi testunau llenyddol yn fedrus, gan ddewis dyfyniadau dilys i gefnogi'r pwyntiau a wnânt. Ceir cyfleoedd buddiol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen uwch. Er enghraifft, wrth ddadansoddi posteri propaganda mewn hanes, mae disgyblion yn casglu gwybodaeth o ffynonellau hanesyddol yn hynod fedrus, gan gyfosod gwybodaeth am gyd-destun y ffynonellau tra'n trafod diben a tharddiad.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag adrannau i sicrhau bod cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig gwerthfawr ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol iawn. Er enghraifft, mewn hanes, wrth ddisgrifio'r newidiadau yng Nghymru rhwng 1750 a 1900, maent yn defnyddio geirfa amrywiol a phriodol sy'n gynyddol gymhleth. Ceir strategaethau synhwyrol i helpu disgyblion i wella cywirdeb eu gwaith Saesneg ysgrifenedig, ac mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull cyson gydag ysgolion cynradd lleol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol mynych yn eu hysgrifennu.

Cymraeg

Mae'r ysgol wedi cydnabod pwysigrwydd gwella medrau dwyieithog disgyblion ac wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Mae'r cydlynydd llythrennedd yn newydd yn y swydd ac wedi dechrau gwaith i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'n ddyddiau

cynnar iawn o ran datblygiad yn y gwaith hwn, ac mae wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ar gyfer Blynyddoedd 7 i 9.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg. Mewn gwersi cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod addas o eirfa i fynegi eu safbwyntiau a chyfrannu at drafodaethau grŵp. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio'u tafodiaith leol yn naturiol ac yn hyderus. Fodd bynnag, mae diffyg hyder gan leiafrif ohonynt oherwydd eu geirfa Gymraeg gyfyngedig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen i ddewis a gwneud sylwadau addas ar syniadau a themâu allweddol. Mewn gwersi Cymraeg, mae disgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth dda a gwerthfawrogiad o destunau llenyddol heriol, gan ddewis dyfyniadau addas i gefnogi eu syniadau, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi a dehongli ystyr y testun 'Gogls Rhithwir'. Mewn gwersi hanes, mae ychydig o ddisgyblion yn gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau yn llwyddiannus ac yn dangos dealltwriaeth gref o ragfarn wrth ddysgu am y terfysgoedd hil yng Nghaerdydd.

Ar draws y cwricwlwm, caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu gwaith yn briodol ac yn llunio ymatebion ysgrifenedig priodol. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu gyda chystrawen anodd ac yn gwneud camgymeriadau gramadegol a sillafu mynych ac ailadroddus.

Mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg Craidd yn defnyddio geirfa, a'i galw i gof, yn effeithiol. Maent yn llunio brawddegau syml yn hyderus ac yn creu darnau ysgrifennu byr gan ddefnyddio ystod addas o eirfa. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion hyder i gyfathrebu yn yr iaith ac maent yn dibynnu'n ormodol ar batrymau strwythur sy'n cael eu rhoi iddynt gan eu hathrawon. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Rhifedd

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu ymagwedd fwy cydlynol at ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn ddiweddar, mae'r adran mathemateg wedi cynnal trafodaethau â meysydd eraill y cwricwlwm ynghylch ymagweddau at addysgu dadansoddi data, ac wedi addasu ei chynlluniau gwaith i gefnogi hyn yn well. Mae'r cydlynydd rhifedd yn dechrau ennill dealltwriaeth o ymagweddau presennol at rifedd ar draws y cwricwlwm ac i nodi meysydd arfer effeithiol a meysydd i'w gwella sy'n dod i'r amlwg.

Yn gyffredinol, ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran cynllunio ar gyfer dilyniant mewn rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd sylfaenol cadarn ac yn defnyddio pedair rheol rhif yn briodol. Dros gyfnod, maent yn datblygu eu medrau yn briodol, yn cynnwys gwneud cyfrifiadau sy'n cynnwys degolion, canrannau a chymarebau. Mae llawer o ddisgyblion yn newid rhwng unedau arwynebedd a chyfaint yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o drigonometreg. Maent yn gallu llunio a phlotio graffiau gwasgariad â chywirdeb rhesymol a dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynir i lunio casgliadau priodol. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o algebra yn dda.

Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos amgyffrediad cryf iawn o gysyniadau mathemategol. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth algebraidd yn effeithiol ac yn ei defnyddio i ddatrys problemau mwy cymhleth â hyder.

Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd gwan ac yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn gwersi. Mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd cynrychioli data yn gywir, er enghraifft wrth ddewis a chymhwyso graddfeydd mewn graffiau llinell. Mewn ychydig o achosion, mae diffyg her yn y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan y disgyblion hyn, sy'n cynnwys tasgau sylfaenol yn bennaf, fel copïo data neu lunio siartiau bar syml.

Medrau digidol

Mae arweinwyr yn annog staff i wneud defnydd doeth o dechnoleg ddigidol lle mae'n ehangu dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, rhoddir ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn datblygu dealltwriaeth briodol o ddiogelwch ar-lein, yn cynnwys canlyniadau bwlio ar-lein ac effaith eu hôl-troed digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio offer digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau, er enghraifft wrth gymhwyso fformiwlâu mewn taenlenni, gan greu llinellau amser effaith sain mewn cerddoriaeth, creu cyflwyniadau yn Saesneg, neu dynnu llun siapiau isometrig mewn dylunio a thechnoleg.

Cwricwlwm

Mae'r cynnig cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion astudio pob pwnc trwy gyfrwng y Saesneg, a llawer o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ceir ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion barhau i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 i 13. Mae ystod eang o gyrsiau, yn cynnwys pynciau cyffredinol a galwedigaethol, ar gael ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae opsiynau galwedigaethol yn cynnwys lletygarwch ac arlwyo a pheirianneg. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n defnyddio darpariaeth amgen yn dilyn cwricwlwm gwerthchweil wedi'i addasu sy'n diwallu eu hanghenion.

Er bod yr ysgol yn cynnig ystod werthchweil o bynciau opsiwn ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth, mae'r cynnig galwedigaethol yn gyfyngedig. Mewn ychydig o bynciau

opsiwn ôl-16, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd a gynigir trwy gydweithio ar-lein â darparwyr eraill. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn adolygu addasrwydd a chost y cynnig cwricwlaidd yn y chweched dosbarth yn ddigon manwl i gynllunio addasiadau synhwyrol.

Mae'r ysgol wedi treialu ac esblygu ei gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr wedi cynorthwyo adrannau i weithio gyda'i gilydd i ddiwygio cynlluniau gwaith, ac wedi sicrhau hefyd fod pynciau unigol wedi cadw eu hunaniaeth. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu 'Cynefin' a Chymru, hefyd. Mae hyn yn cynnwys dysgu am sut mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu dros gyfnod. Mewn gwersi hanes, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghydraddoldeb tra'n dysgu am y terfysgoedd hil yn Ne Cymru ym 1919. Mae'r ysgol yn datblygu ei phartneriaeth ag ysgolion cynradd lleol i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion, er enghraifft i gefnogi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol.

Caiff rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol ei chydlynu'n dda ac mae'n darparu profiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Yn ogystal â sesiynau wythnosol yn ystod cyfnodau cofrestru, mae disgyblion yn elwa ar weithdai a gyflwynir gan ystod o asiantaethau allanol. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ddata lles i gynllunio rhaglen o weithgareddau, sydd wedi'u teilwra i anghenion disgyblion, sy'n cefnogi datblygiad medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Mae arweinwyr yn mireinio'r rhaglen yn briodol i ymateb i faterion cyfoes. Er enghraifft, mae mwy o ffocws erbyn hyn ar addysg iechyd meddwl ac mae disgyblion ym Mlynyddoedd 11, 12 ac 13 yn cael sesiynau defnyddiol ar ddemocratiaeth cyn pleidleisio am y tro cyntaf. Mae'r ysgol wedi cynllunio'i darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ofalus i greu cwricwlwm sy'n briodol i oedran ar gyfer ei disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthchweil i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru, er enghraifft wrth gymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol ac mewn eisteddfodau lleol. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn helpu codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg trwy helpu trefnu 'Diwrnod Shwmae Su'mae'.

Mae profiadau allgyrsiol buddiol ar gael, yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau addysgol. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan yng nghynyrchiadau cerddorol yr ysgol ac ymweld â theatrau, cymryd rhan yng nghystadleuaeth British Physics Olympiad a mynychu gweithdai ysgrifennu creadigol sy'n cael eu trefnu gan brifysgolion lleol.

Y Chweched Dosbarth

Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb diffuant yn eu hastudiaethau. Mae ychydig ohonynt yn hynod huawdl ac yn gwneud pwyntiau wedi'u

llunio'n ystyriol yn ystod trafodaethau. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol trwy gyfleoedd fel cynnal clwb gwaith cartref a chynorthwyo disgyblion iau i ddarllen.

Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Emlyn yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae staff yn ymdrechu i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael cefnogaeth dda. Mae'r staff bugeiliol yn dîm medrus ac ymroddgar sy'n adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol i hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu proses pontio lles effeithiol. Mae disgyblion o ysgolion cynradd partner yn elwa ar ystod briodol o weithgareddau difyr sy'n eu cynorthwyo i setlo'n gyflym ac yn hyderus ym Mlwyddyn 7. Mae'r ddarpariaeth bontio ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai ag ADY yn amserol ac wedi'i thargedu'n dda, gan sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mae'r tîm ADY yn rhannu gweledigaeth strategol glir ac ymrwymiad cryf i gefnogi cynnydd disgyblion sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr a chydlynus at ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY. Mae staff o fewn y tîm hwn yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu unigol disgyblion ac yn rhoi ystod eang o ymyriadau targedig ar waith yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau llythrennedd a rhifedd addas, darpariaeth o fewn 'Canolfan Carlam', a chymorth â ffocws o fewn gwersi prif ffrwd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r defnydd cyson o arferion sy'n canolbwyntio ar y disgybl wrth ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a phroffiliau un dudalen, yn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n glir. Mae staff ar draws yr ysgol yn elwa ar ddysgu proffesiynol perthnasol yn gysylltiedig ag ADY, a cheir cyfathrebu rheolaidd a chyfle i fanteisio ar ystod o ddeunyddiau cymorth defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod eu cynllunio yn diwallu anghenion unigol disgyblion.

Mae cyngor ysgol sefydledig yn yr ysgol sydd â chynrychiolaeth disgyblion o bob grŵp blwyddyn. Mae staff yn casglu barn disgyblion yn briodol trwy adolygiadau adrannol a thrafodaethau grŵp. Fodd bynnag, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau neu ymgymryd â rolau arwain.

Mae'r ysgol yn rhoi arweiniad buddiol i ddisgyblion wrth iddynt baratoi ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg a chyflogaeth. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chyrff allanol i sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae ystod addas o weithgareddau i gefnogi eu dealltwriaeth o lwybrau gyrfa

posibl. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio â busnesau lleol, ymweliadau â phrifysgolion, a phrofiadau gwerthfawr o weithleoedd. Mae disgyblion chweched dosbarth, yn benodol, yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt wrth ymgeisio am gyrsiau prifysgol neu fynd i gyflogaeth. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi gwybodaeth fuddiol i ddisgyblion a'u rhieni trwy ddigwyddiadau, fel nosweithiau opsiynau.

Mae ffocws ysgol gyfan cryf ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ac mae staff yn dilyn polisi clir sy'n cynnwys ymagwedd raddedig at fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwael. Mae'r tîm bugeiliol yn fedrus ac ymroddgar, gan gynnig ystod eang o ymyriadau pwrpasol i gynorthwyo disgyblion i reoleiddio a gwella'u hymddygiad. Mae hyn yn cynnwys cydweithio effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n helpu'r tîm i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol neu gymdeithasol mwy cymhleth.

Mae canolfan 'Hafan' a 'Canolfan Cyfle' yn darparu mannau diogel a chefnogol ar gyfer disgyblion bregus neu'r rhai sy'n profi anawsterau ymddygiadol neu emosiynol. Mae'r 'Nyth Natur' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion penodol ddatblygu eu medrau garddio yn ogystal â'u medrau rhyngbersonol pan fyddant yn rhoi eu cynnyrch mewn digwyddiadau cymunedol lleol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn elwa ar gwricwlwm amgen addas, a gyflwynir mewn partneriaeth â choleg a busnesau lleol, sy'n helpu cefnogi eu presenoldeb, eu hymgysylltiad a'u hailintegreiddio.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o ddata mewnol i nodi patrymau ymddygiad sy'n dod i'r amlwg ac yn dilyn ymagwedd glir, fesul cam at ymyrraeth. O ganlyniad i ffocws cryf ar sicrhau ymddygiad cadarnhaol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae gan arweinwyr drefniadau priodol i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau clir sy'n cael eu deall yn dda gan staff, ac sy'n eu galluogi i ymateb yn brydlon pan fydd pryderon yn codi. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo bod rhywun y gallant siarad ag ef os bydd ganddynt bryderon. Tynnodd y tîm sylw'r ysgol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Mae gwella presenoldeb disgyblion yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol, ac mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â hyn. Mae'r ysgol yn cynnal perthnasoedd agos â rhieni ac yn gwneud defnydd priodol o wasanaethau allanol i gefnogi achosion unigol. Mae presenoldeb cyffredinol wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf ac yn parhau i fod ychydig islaw presenoldeb ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi amrywio hefyd, er iddo fod uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd sicr y mae ei werthoedd wedi'u seilio'n gadarn ar sicrhau bod yr ysgol yn gynhwysol ac yn darparu'r addysg orau posibl ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gyfun Emlyn. Caiff hyn ei gwmpasu yn arwyddair yr ysgol, sef 'Gorau oll y gorau ellir'. Mae arweinwyr yn dyheu am ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu a datblygu i fod yn aelodau gwerthfawr o'r ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Mae rolau uwch arweinwyr wedi eu dosbarthu'n deg. Maent yn gweithio'n agos fel tîm ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau. Mae llinellau atebolrwydd wedi eu diffinio'n glir. Mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn briodol trwy adolygiadau adrannol a chyfarfodydd rheolaeth llinell. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod cynnydd disgyblion, addysgu ac arweinyddiaeth. Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi natur gefnogol y cyfarfodydd hyn. Mae arweinwyr canol yn datblygu yn eu rolau o ran dwyn aelodau o'u hadran i gyfrif.

At ei gilydd, mae'r broses datblygu perfformiad yn galluogi staff i ddilyn eu nodau personol yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau adrannol. Yn gyffredinol, mae nodau perfformiad unigol yn addas gyda meini prawf llwyddiant priodol. Mae staff yn nodi pa hyfforddiant neu gymorth sydd ei angen arnynt i ymestyn eu datblygiad personol. Maent yn gwerthfawrogi'r dysgu proffesiynol a gynigir, sy'n cynnwys hyfforddiant ar agweddau penodol ar addysgu a dysgu, cyfleoedd i fynychu rhwydweithiau pwnc a chydweithio â chydweithwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar arfer ystafell ddosbarth. Er enghraifft, o ganlyniad i hyfforddiant ar gyfer staff i ddelio â tharfu ar lefel isel, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

Mae gan yr ysgol broses hunanwerthuso a ddeellir yn dda sy'n cynnwys adolygu'r holl adrannau yn ystod y flwyddyn. Mae'r adolygiadau hyn yn casglu ystod eang o dystiolaeth o arsylwadau gwersi, craffu ar waith a gwrando ar ddysgwyr, a gynhelir gan uwch arweinwyr. Yn ychwanegol, mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data arholiadau yn dda i werthuso perfformiad cyffredinol yn ogystal â pherfformiad grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws adrannau. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ysgol gyfan gwerthfawr o'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion, a'i heffaith. Fodd bynnag, weithiau, mae gweithgareddau'n canolbwyntio gormod ar gydymffurfio a chwblhau camau gweithredu yn hytrach na'u heffaith. Nid yw arweinwyr bob amser yn nodi'n fanwl gywir beth mae angen ei wella, yn enwedig wrth ystyried effaith yr addysgu ar ddysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar ba mor dda y gall arweinwyr gynllunio i wella agweddau penodol ar addysgu.

Mae arweinwyr canol wedi ymrwymo i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cyfrannu'n ystyrlon at weithgareddau hunanwerthuso fel craffu ar waith a gwrando ar ddysgwyr o fewn eu hadrannau. Yn ddiweddar, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol wedi cymryd rhan weithredol mewn arsylwadau gwersi fel rhan o'r broses adolygu adrannol. Mae hyn yn dechrau cael effaith fuddiol ar eu dealltwriaeth o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae gan arweinwyr ffocws addas ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran datblygu llythrennedd disgyblion yn Saesneg ac yn Gymraeg a chymorth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ysgol wedi cryfhau ei ffocws ar liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu cymwysterau Blwyddyn 11 wedi amrywio, ac yn 2024-2025, mae'n cyd-fynd yn fras â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau, yn cynnwys y grant amddifadedd disgyblion, i liniaru effaith tlodi. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar gymorth i wella'u medrau sylfaenol ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol na fyddent efallai'n fforddiadwy iddynt fel arall.

Mae'r corff llywodraethol yn dod yn gynyddol hyderus yn eu rôl fel ffrind beirniadol. Yn gyffredinol, maent yn darparu her a chymorth addas ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o faterion sy'n effeithio ar les disgyblion a staff. Mae sefyllfa ariannol yr ysgol wedi bod yn heriol ers tro. Er bod arweinwyr yn cynllunio a monitro gwariant yn ddiwyd, mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd. Nid yw'r diffyg cynyddol hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ac nid oes cynllun adfer cytûn.

Dros gyfnod, mae arweinwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwneud cynnydd yn erbyn llawer o'r argymhellion o'r arolygiad craidd diwethaf, fel gwella ymddygiad a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni trwy ddulliau amrywiol fel cylchlythyrau, negeseuon testun a negeseuon e-bost. Yn aml, mae'r rhain yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn ogystal â darparu gwybodaeth ddefnyddiol fel dyddiadau ar gyfer y dyddiadur.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2026